GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update










*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 5: wythnos **15/02/2021**

## Cynnydd Wythnosol (8 - 15 Chwefror)

**Yr wythnos hon, rydym wedi cyrraedd y garreg filltir gyntaf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, i frechu'r bobl hynny o fewn grwpiau blaenoriaeth 1-4 y JCVI. Bellach, mae cyfanswm o 150,105 o bobl ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19.**



Dyma gyflawniad gwych, ac rydym yn falch iawn ohono a hoffem ddiolch i bawb a fynychodd eu hapwyntiad. Hefyd, hoffem ddiolch i'r holl staff sy'n brechu pobl ac sy'n rhedeg y clinigau brechu hyn mewn Meddygfeydd Meddyg Teulu a Chanolfannau Brechu Torfol, y Fyddin, a'r staff a gwirfoddolwyr sy'n cynllunio ac yn gweithio yn y cefndir i wireddu'r dasg anferthol hon.

Bellach, rydym wedi brechu 91.6% o bobl 75-79 oed a 91.4% o bobl 70 oed a hŷn.

Yr wythnos ddiwethaf, gweithiodd ein Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu, unedau symudol a chydweithwyr Gofal Sylfaenol yn eithriadol o galed, ac maent yn parhau i frechu'r rheiny sy'n gaeth i'r tŷ ac sy'n gymwys yn unol â grwpiau blaenoriaeth y JCVI.

## Lleoliadau Gwaith Newydd mewn Canolfannau Brechu



Mae Abbie ac Alice yn fyfyrwyr nyrsio yng nghanol ail flwyddyn eu Gradd Nyrsio ym Mhrifysgol De Cymru, ac ar hyn o bryd maent yn cwblhau lleoliad gwaith unigryw iawn o fewn ein Rhaglen Brechu Torfol. Ar ôl cwblhau hyfforddiant llawn yn ein Canolfan Frechu Torfol yng Nghwmbrân, maent yn brechu cleifion mewnol mewn Ysbytai, fel rhan o'n Tîm Brechu Symudol.

Gallwch ddysgu mwy am y cynllun lleoliadau newydd yn y fideo hwn, gyda Linda Jones, Nyrs Arwain, yn egluro'r hyfforddiant mae myfyrwyr wedi ei wneud cyn ymuno â hi i frechu cleifion yn ein Hysbytai, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw: : https://youtu.be/JJ0dIGEI73c

**Cyfanswm y bobl ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19:**
(hyd at 10om. 14/02/21)
**150,105**

## Ffigyrau Brechu Wythnosol (8 - 15 Chwefror)

| | |
|---|---|
| Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (staff a phreswylwyr) | 7,993 |
| Staff Iechyd Rheng Flaen | 20,532 |
| Pobl 80 oed a'n hŷn | 89.2% |
| Pobl 75-79 mlwydd oed | 91.6% |
| Pobl 70-74 mlwydd oed | 91.4% |
| Nifer y brechlynnau a roddwyd mewn Meddygfeydd Meddyg Teulu | 48,173 |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

# Yr Wythnos Sydd i Ddod (15 - 22 Chwefror)

**Yr wythnos hon, rydym i fod i gael cyflenwad o 14,000 o frechlynnau.**
Fel yr amlinellwyd mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl ychydig o ostyngiad yn y nifer o frechlynnau yn ystod yr wythnos nesaf. Mae hwn yn newid disgwyliedig, sydd wedi ei gynllunio, ac ni fydd yn effeithio ar apwyntiadau neu achosi oediad mewn darparu ail frechlynnau. Gallwn gadarnhau fod pob un o'n Canolfannau Brechu Torfol ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnig brechlynnau yr wythnos nesaf.

Rydym yn gweithio tuag at gynlluniau i frechu'r rheiny yng ngrwpiau 5-9 y JCVI erbyn y gwanwyn. Fodd bynnag, oherwydd amryw o wahanol ffactorau, fel y nifer o ddosiau a dderbyniwn, gall cynlluniau newid ar fyr rybudd.

Wrth i ni gychwyn gwahodd grŵp 5 a 6, gallwn gadarnhau y bydd y bobl yng ngrŵp 5 yn derbyn eu gwahoddiad gan y Bwrdd Iechyd, a bydd yr unigolion yng ngrŵp 6 yn derbyn gwahoddiad gan eu Meddygfa Meddyg Teulu.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020



## Ail Ddosiau'r Brechlyn

Rydym wedi erbyn newyddion cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru fod cyflenwad cyfyngedig o Pfizer ar gael yn gynharach na ddisgwyliwyd ar gyfer ail ddosiau'n unig. Rydym wedi derbyn y newyddion hwn ar fyr rybudd, ac yn gweithio i ddarparu ail ddosiau mor gyflym â phosib.

Rydym yn anfon llythyrau i wahodd pobl i gael eu hail ddosiau. Bydd apwyntiadau'n cychwyn Ddydd Gwener 19 Chwefror. Gweler yr amserlen am fanylion.

## Apwyntiadau

**Gwyddom fod yna rai pobl yng ngrwpiau blaenoriaeth 1-4 nad ydynt wedi gallu cael brechlyn am nifer o resymau.**
Os ydych yn 80 oed a hŷn, 70-71 oed neu yn eithriadol o fregus yn glinigol, ac nad ydych wedi cael gwahoddiad am apwyntiad, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu. I'r bobl hynny sydd rhwng 72-79 oed, os nad ydych wedi derbyn eich llythyr apwyntiad eto, cwblhewch y ffurflen drwy'r ddolen ganlynol: : https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-72-79-and-not-received-your-invitation/

Os cewch apwyntiad, gwnewch bob ymdrech i fynychu, gan na fyddwn yn gallu cynnig apwyntiad arall, ac eithrio i'r bobl hynny sydd wedi'u cofrestru'n gaeth i'r tŷ. Peidiwch â chysylltu â'r ganolfan archebu na meddygfa'ch Meddyg Teulu os nad ydych wedi derbyn llythyr apwyntiad hyd yn hyn.

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Ffigyrau ar gyfer yr wythnos sydd i ddod (15-22 Chwefror)

| | |
|---|---|
| **Cyflenwad brechlynnau ar gyfer yr wythnos hon** | **14,000** |

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Hynod Fregus Yn Glinigol | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Meddygfeydd |
| 50-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Amserlen Ddisgwyliedig ar gyfer Ail Ddosiau

| DOS 1AF WEDI DERBYN RHWNG | LLYTHYR ETA WEDI EI DDERBYN ERBYN | APWYNTIAD 2AIL DDOS O |
|---|---|---|
| 07/12/20 - 13/12/20 | 12/02/21 | 22/02/21 |
| 14/12/20 - 20/12/20 | 12/02/21 | 19/02/21 |
| 21/12/20 - 27/12/20 | 16/02/21 | 22/02/21 |
| 28/12/20 - 03/01/21 | 16/02/21 | 22/02/21 |
| 04/01/21 - 10/01/21 | 18/02/21 | 01/03/21 |
| 11/01/21 - 17/01/21 | 18/02/21 | 01/03/21 |
| 18/01/21 - 24/01/21 | 22/03/21 | i'w gadarnhau |
| 25/01/21 - 31/01/21 | 22/03/21 | i'w gadarnhau |
| 01/02/21 - 07/02/21 | 02/04/21 | i'w gadarnhau |

Peidiwch â chysylltu â ni i ymholi am apwyntiad eich ail ddos oni bai nad ydych wedi derbyn llythyr o fewn yr amser a nodwyd yn y tabl uchod.

Efallai y bydd rhai apwyntiadau'n cael eu gwneud yn gynt.

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, ond oherwydd nifer y ffactorau amrywiol, megis darparu'r brechlyn, gall cynlluniau a gyhoeddwyd newid

bipab.gig.cymru